# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**
**03 Mehefin 2025**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, R G Parry, S Jones, C Thomas, D Fowlie (Cynghorydd Sir), G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng G Parry, H Owens | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 08.04.25 fel cofnodion cywir. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbris o £2244 gan Snowdonia Fire and Rescue ar gyfer uwchraddio system CCTV yr ysgol ac i ganiatáu camera i weld y maes chwarae. Gofynnwyd i'r Clerc fwrw ymlaen â'r gwaith. |
| **4.2** | **Terfyn cyflymder Engedi** – Mae y Cyngor Sir yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru |
| **4.3** | **Mynwent Bryngwran** - Mae'r Clerc yn aros i glywed gan yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â dyddiad ar gyfer cysegru'r tir. |
| **4.4** | **Traffig yn mynd I mewn I Plas Crigyll** - Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda |
| **4.5** | **Dosbarthwr bagiau cwn -** Nid yw'r dosbarthwr wedi'i osod yn Stryd Fawr, Bryngwran eto. Cynigiodd y Cynghorwyr N Evans a D Fowlie drafod y mater gyda'r Cyngor Sir. |
| **4.6** | **Diffibriliwr –** Mae'r diffibriliwr bellach yn ei le yn y feddygfa, Bryngwran. Bydd y Clerc yn ail-anfon y ddolen hyfforddi at yr aelodau. Mae wedi cwblhau ffurflen gais i London Hearts am ddifibriliwr am bris gostyngol ar gyfer Plas Crigyll. Mae'n aros am ymateb. |
| **4.7** | **Hysbysffwrdd -** Cynigiodd y Cynghorydd C Thomas i'w gŵr osod yr hysbysfwrdd newydd yn ei le. Bydd y Clerc yn cyflwyno'r hysbysfwrdd iddi. |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 08.07.25 |

| | |
|---|---|
| **4.8** | **Maes Chwarae -** Mae'r cwmni a gontractiwyd i wneud y gwaith yn y maes chwarae yn datgan nad yw'r amcangyfrifon yn ddilys mwyach gan eu bod yn fwy na 30 diwrnod oed. Mae'r Clerc wedi gofyn am ddyfynbrisiau (nid amcangyfrifon) ond maent wedi gwrthod eu darparu. Felly bydd y Clerc yn cysylltu â chwmnïau eraill i gael prisiau. |
| **4.9** | **Awdit 2022-2023 a 2023-2024** - Derbyniodd yr aelodau'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer y ddwy flynedd a nodi sylwadau'r archwilwyr ar gyfer 2022-2023. Nid oedd unrhyw sylwadau ar gyfer 2023-2024. |
| **4.10** | **Giat Bro Isaf** - Disgwylir penderfyniad gan yr Adran Tai ynghylch y giât. |
| **4.11** | **Bin Lon Ty Hen** - Mae'r bin yn ei le. Mae'r Clerc wedi cysylltu â Humphreys Waste sawl gwaith yn gofyn iddyn nhw ei wagio. Mae'n deall y bydd yn cael ei wagio heddiw. |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau a'r Clerc am eu cefnogaeth dros y flwyddyn. |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **6.1** | FPL/2025/104 Cais llawn ar gyfer gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yn Bryn Aber, 3 Lon Salem / Salem Street, Bryngwran – dim sylwadau. |
| **6.2** | HHP/2025/83Cais llawn ar gyfer addasu ag ehangu yn Bwthyn Paradwys, Bryngwran – dim sylwadau. |
| **6.3** | FPL/2025/138 Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd a garej bresennol yn ogystal â chodi annedd newydd yn eu lle yn Cae Coch, Ty Croes – dim sylwadau. |
| **6.4** | Galw am safloedd – gwybodaeth yn unig |
| **6.5** | Cymorth Cynllunio Cymru - – Mae cyrsiau sydd ar gael dros y 12 mis nesaf wedi cael eu hanfon at yr aelodau. |
| | **Priffyrdd** |
| **6.6** | Gwella ffyrdd heb eu mabwysiadu - Mae'r Cyngor Sir wedi llwyddo i gael Arian Grant gan Lywodraeth Cymru o dan ei chynllun Gwella Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu, er mwyn trwsio ac ail-wynebu'r ffordd stâd anghyflawn yn Ty'n Berllan, i fodloni safonau mabwysiadu priffyrdd. |
| **6.7** | Cau Ffordd dros dro – Lon Trefor I'r A5 – gwybodaeth yn unig. |
| **6.8** | Llwybr I'r cae Chwarae – gweler 4.10 |
| **6.9** | Cyflymder Engedi - Mae'r Cyngor Sir yn dal i aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 08.07.25 |

| | |
|---|---|
| | |
| **6.10** | Dan Jones – Plas Crigyll - wedi'i dynnu oddi ar yr agenda gweler 4.4 |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Ellis Groundworks – gweler 4.8 |
| **7.2** | Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan - Llythyr gan y Bwrdd: “Yn dilyn trafodaeth yng ngyfarfod y Bwrdd Gofalwyr a gynhaliwyd ar 7fed o Fai 2025, penderfynwyd yn unfrydol y dylid newid tymor aelodau’r Bwrdd sy’n cynrychioli’r cymunedau i gyd-fynd â thymor etholiadol y cynghorau cymuned.<br>Yn unol â’r drefn bresennol, gellir ail-enwebu’r un aelod ar ddiwedd y cyfnod etholiadol pe dymunir. Gellir hefyd enwebu unigolyn nad yw’n aelod o’r cyngor cymuned fel cynrychiolydd ar yr amod eu bod yn cwrdd â’r gofynion i sefyll fel aelod o’r cyngor penodol.<br>Penderfynwyd hefyd, yn dilyn ymholiadau gan rai cynghorau, y dylid estyn gwahoddiad i glercod a chadeiryddion y pedwar cyngor cymuned i gyfarfod â’r Bwrdd ar nos Fercher, 4ydd o Fehefin o 5:30 – 6:00 y.h yn Neuadd Goffa Bodedern. Mae’r Bwrdd yn gobeithio y bydd yn gyfle i egluro’r gwaith sydd ynghlwm â rheoli, cynnal a gwarchod y tywyn ac y bydd hefyd yn gyfle i’r cynghorau cymuned ofyn unrhyw gwestiynnau.<br>Byddwn yn ddiolchgar iawn os gallwch gadarnhau o flaen llaw os ydych yn bwriadu bod yn bresennol ai peidio”<br>Cytunodd y Cynghorwyr I a P Roberts i fynychu'r cyfarfod. |
| **7.3** | Snowdonia Fire Protection – gweler 4.1 |
| **7.4** | Eglwys yng Nghymru - Llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth. Mae'r Clerc wedi ymateb. |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Mynwent Llanbeulan - Methodd y contractwr â chasglu'r glaswellt ar ôl ei dorri. Mae'r Clerc wedi cysylltu ag ef ac mae hyn bellach wedi'i wneud. |
| **8.2** | Lwfans Blynyddol yr Aelodau – Atgoffodd y Clerc yr aelodau bod y lwfans blynyddol ar gael iddynt ac y gellir gwneud y taliad ychwanegol pe bai unrhyw enwebiadau yn cael eu gwneud. Gofynnwyd i'r aelodau lenwi'r ffurflen a dderbyniwyd ganddynt drwy e-bost i ddatgan a ydynt yn dymuno hawlio'r lwfans ai peidio. Pwysleisiodd y Clerc hefyd bwysigrwydd dychwelyd y ffurflenni oherwydd bod archwilwyr fel arfer yn gofyn i weld ymatebion yr aelodau. |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 08.07.25 |

| | |
|---|---|
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu'r canlynol: |
| **9.1** | R Jones Trydanwr £254.86 (surgery defibrillator) |
| **9.2** | Yswiriant Zurich £735.07 |
| **9.3** | Humphreys Waste Anf 24970 £24.00 |
| **9.4** | G Owen £82.50 (torchau VE Day) |
| **9.5** | I Roberts £59.40 costau y Cadeirydd |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | Dim |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 08.07.25 |